# Cyhoeddiad am gyfle:

# Cadeirydd, Pwyllgor Cynghori Cymru

Cymru, Y Deyrnas Unedig

Er bod hon yn rôl ddi-dâl, caiff treuliau a chostau teithio rhesymol o fewn y DU eu had-dalu.

Rhaid bod gan ymgeiswyr yr hawl i weithio yn y DU

Dyddiad Cau: Hydref 3 2025.

## Y cyfle

Rydym yn chwilio am unigolyn â phrofiad o rolau lefel uwch yng Nghymru a fydd, fel Cadeirydd, yn arwain gwaith Pwyllgor Cynghori Cymru i gyflawni'r amcanion a nodir yn ei gylch gorchwyl. Byddwch yn rhoi cyngor i Gyfarwyddwr British Council Cymru a chyfrannu'n anweithredol i sicrhau bod y British Council yn cael yr effaith orau bosibl yng Nghymru ac ar ran Cymru. Byddwch hefyd yn eiriol dros waith y British Council.

## Amdanom ni

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol. Rydym yn hybu heddwch a ffyniant drwy feithrin cysylltiadau, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng pobl yn y Deyrnas Unedig a gwledydd ledled y byd.

Rydym yn defnyddio cyngor arbenigol ein grwpiau cynghori sector a thri o bwyllgorau cyngori yng ngwledydd y Deyrnas Unedig i'n helpu i sicrhau ansawdd ac annibyniaeth ein ffordd o feddwl. Mae Pwyllgor Cynghori Cymru'n rhoi cyngor i Gyfarwyddwr British Council Cymru a dylanwadu ar y modd y caiff gweledigaeth a strategaeth y British Council eu gwireddu.

Yng Nghymru, rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar addysg a'r celfyddydau. Gan weithio'n agos â'n partneriaid yng Nghymru ac ar draws rhwydwaith y British Council, rydym yn anelu i:

- sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn ogystal â'r rheini a allai elwa o gynigion addysg a chelfyddydau'r British Council yn ymwybodol ohonynt, ac yn cael cefnogaeth i fanteisio'n llawn arnynt
- cefnogi uchelgais ryngwladol Llywodraeth Cymru a sectorau'r celfyddydau ac addysg
- cyfrannu'n gadarnhaol a gweledol i'r drafodaeth genedlaethol ar ryngwladoli addysg a'r celfyddydau yng Nghymru

- sicrhau bod llais unigryw Cymru'n rhan o waith rhyngwladol y British Council, a sicrhau bod gan Gymru gynnrychiolaeth deilwng yng nghynig y British Council ar ran y DU

Mae'r British Council yn manteisio ar gyngor strategol gan ein tri Phwyllgor Cynghori Gwlad - yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

## Ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant

Mae’r British Council wedi ymrwymo i bolisiau ac arferion i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth yr ydym yn ei wneud. Rydym wrthi’n gweithio i wella amrywiaeth ar draws ein holl strwythurau llywodraethu fel eu bod yn adlewyrchu’r cymdeithasau yr ydym yn gweithio ynddynt. Rydym yn rhoi cefnogaeth i holl aelodau ein staff i sicrhau bod eu hymddygiad yn gyson â’r ymrwymiad hwn. Rydym am fynd i’r afael â thangynrychiolaeth, ac rydym yn annog ymgeiswyr o grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli - yn arbennig o ran ethnigedd ac anabledd (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny). Gwarentir cyfweliad i bob ymgeisydd ag anabledd sy’n ateb gofynion y meini prawf hanfodol, ac rydym yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Rydym yn croesawu sgyrsiau am unrhyw ofynion penodol neu newidiadau sydd eu hangen i sicrhau y gallwch ymgysylltu a chymryd rhan yn ein gwaith a’n gweithgareddau.

## Telerau ac amodau

Apwyntir y Cadeirydd am gyfnod o dair blynedd. Gellir adnewyddu’r apwyntiad am ail dymor o dair blynedd ychwanegol. Er nad yw'r Cadeirydd yn derbyn tâl, caiff treuliau a chostau teithio rhesymol o fewn y DU eu had-dalu yn ôl cyfraddau safonol y British Council. Rhaid bod gan ymgeiswyr yr hawl i weithio yn y D.U.

Gweler hefyd: Cylch Gorchwyl Pwyllgor Cynghori Cymru

## Sut i wneud cais

Os oes diddordeb gennych yn y rôl hon a'ch bod yn teimlo eich bod yn addas ar ei chyfer, byddem yn falch iawn i glywed gennych. Gallwch gyflwyno cais drwy anfon copi o'ch CV a llythyr eglurhaol at teamwales@britishcouncil erbyn 3 Hydref 2025.

# Proffil y rôl

| **Teitl y swydd** | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori Cymru | | |
|---|---|---|---|
| **Rhanbarth** | Y Deyrnas Unedig | **Gwlad** | Cymru |
| **Lleoliad** | Cymru | **Tâl** | Di-dâl. Ad-delir treuliau a chostau teithio rhesymol o fewn y DU. |
| **Yn adrodd i** | Cyfarwyddwr Cysylltiadau'r DU a Chysylltiadau Allanol | **Hyd y rôl** | Tymor o Dair blynedd |

## Cefndir a chyd-destun

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol. Rydym yn hybu heddwch a ffyniant drwy feithrin cysylltiadau, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng pobl yn y Deyrnas Unedig a gwledydd ledled y byd.

Mae'r British Council yn elusen gofrestredig o fewn y DU sy'n cael ei llywodraethu gan Siarter Frenhinol. Rydym yn cael ein harwain gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr sy'n atebol i Gomisiwn Elusennau'r Deyrnas Unedig.

I'n helpu gydag ansawdd ac annibyniaeth ein ffordd o feddwl, rydym yn cael cyngor arbenigol gan ein grwpiau cynghori sector a'n pwyllgorau cynghori yng ngwledydd y DU. Mae gennym dri o bwyllgorau cynghori - ar gyfer Gogledd Iwerddon, Cymru a'r Alban. Rhoi cyngor yn unig wna aelodau'r grwpiau a phwyllgorau hyn, nid oes ganddynt gyfrifoldebau o ran gwneud penderfyniadau.

Yng Nghymru, rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar addysg a'r celfyddydau. Gan weithio'n agos â phartneriaid yng Nghymru ac ar draws rhwydwaith y British Council, rydym yn anelu i:

- sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn ogystal â'r rheini a allai elwa o gynigion addysg a chelfyddydau'r British Council yn ymwybodol ohonynt, ac yn cael cefnogaeth i fanteisio'n llawn arnynt
- cefnogi uchelgais ryngwladol Llywodraeth Cymru a sectorau'r celfyddydau ac addysg
- cyfrannu'n gadarnhaol a gweledol i'r drafodaeth genedlaethol ar ryngwladoli addysg a'r celfyddydau yng Nghymru
- sicrhau bod llais unigryw Cymru'n rhan o waith rhyngwladol y British Council, a sicrhau bod gan Gymru gynnrychiolaeth deilwng yng nghynig y British Council ar ran y DU

Fel Cadeirydd, byddwch yn arwain Pwyllgor Cynghori Cymru i gyflawni ei bwrpas a'r amcanion a nodir yn y cylch gorchwyl

## Prif gyfrifoldebau'r Cadeirydd

- Arwain y grŵp i gyflawni ei bwrpas a'i amcanion fel y nodir yn y cylch gorchwyl.
- Cadeirio cyfarfodydd grŵp - cynhelir tri chyfarfod bob blwyddyn yn arferol.
- Cynghori ar ddatblygiad strategaeth British Council Cymru a gweithredu fel 'ffrind beirniadol' adeiladol i'r Cyfarwyddwr.
- Eirioli dros waith y British Council.

Yn ogystal, disgwylir i Gadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori Gwlad fynychu dau gyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr bob blwyddyn, a chymryd rhan mewn trafodaethau i osod strategaeth y sefydliad a sicrhau bod y sefydliad byd-eang yn adlewyrchu gwahanol gymeriad pedair gwlad y DU.

## Telerau ac amodau

- Apwyntir y Cadeirydd am dymor o dair blynedd. Gellir adnewyddu'r apwyntiad am ail dymor o dair blynedd ychwanegol.
- Ni thelir y Cadeirydd, ond caiff treuliau a chostau teithio rhesymol o fewn y DU eu had-dalu yn ôl cyfraddau safonol y British Council.
- Rhaid bod gan ymgeiswyr yr hawl i weithio yn y DU

## Y broses ymgeisio

Anfonwch CV a llythyr eglurhaol at Dîm Cymru yn y British Council drwy ebost: teamwales@britishcouncil.org.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â Ruth Cocks drwy ebostio Ruth.Cocks@britishcouncil.org.

Mae Cylch Gorchwyl Pwyllgor Cynghori Cymru wedi'i atodi.

| | |
|---|---|
| Gofynion pasbort/fisa a/neu ddinasyddiaeth | Mae Siarter Frenhinol y British Council yn datgan: 'Wrth ethol Ymddiriedolwyr bydd y Bwrdd yn sicrhau nad oes ar dro ddim mwy na dau o'r Ymddiriedolwyr sydd heb Ddinasyddiaeth Brydeinig'. Felly, efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr fod yn ddeiliaid pasbort y DU. |
| Gwiriadau diogelwch/cyfreithiol ar gyfer y rôl hon | Dim |

## Manyleb y person

Caiff ymgeiswyr eu hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol.

**Sgiliau a Phrofiad Angenrheidiol**

- Profiad o uwch rôl mewn sefydliad mawr yn y sector preifat, cyhoeddus neu wirfoddol - mewn rôl rheoli a/neu fel aelod o Fwrdd.
- Profiad arwyddocaol diweddar o un neu ragor o dri maes gweithgaredd craidd y British Council (Celfyddydau, Addysg, Saesneg) - yn ddelfrydol yn cynnwys profiad yng nghyd-destun Cymru.

| | |
|---|---|
| • Amrywiaeth dda o uwch gysylltiadau a rhwydweithiau yng Nghymru.<br>• Cefndir rhyngwladol cryf a/neu ddiddordeb a chred ym mhwrpas craidd y British Council.<br>• Dealltwriaeth a gwybodaeth am yr hyn y gall Gymru ei gyfrannu ar lwyfan y byd, a chred yng nghallu Cymru i wireddu hynny.<br>• Gallu i weithredu fel 'ffrind beirniadol' adeiladol i Gyfarwyddwr British Council Cymru.<br>• Sgiliau rhyngbersonol ardderchog.<br>• Sgiliau cyfathrebu tra effeithiol (ar lafar ac yn ysgrifenedig). | |
| Dyddiad | 04.09.2025 |